



# Thema: Hwyl yn yr haul

(Theme: Fun in the sun)

Dosbarth: Mari Jones / Class: Mari Jones

Thema plant y Cyfnod Sylfaen ar gyfer y tymor hwn yw 'Hwyl yn yr haul'.

Bydd y plant yn dysgu am gynaliadwyedd a pha mor bwysig yw hi ein bod ni'n ymddwyn yn iawn heddiw er mwyn achub yfory a gofalu am ein daear.

Byddwn yn edrych ar agweddau gwahanol o gynaliadwyedd yn ystod y tymor.

*The theme for the Foundation Phase children this term is 'Fun in the sun.'*

*The children will be learning about sustainability and how important it is for us to act correctly today in order for us to save tomorrow and look after our earth.*

*We will be looking at different aspects of sustainability during the term.*

Yn y dosbarth, byddwn yn canolbwyntio ar y pethau canlynol:

**Cynaliadwyedd:** Dysgu am yr effaith mae sbwriel a phlastig yn ei chael ar ein moroedd.

**Ar lan y môr:** Dysgu am ddiogelwch ar y traeth.

**Yr ardd:** Plannu planhigion a thrafod tyfiant.

**Trychfilod:** Archwilio i wahanol drychfilod, gan ganolbwyntio ar fwydod.

*In the class, we will be concentrating on the following things:*

*Sustainability: Learning about the affect of rubbish and plastic on our oceans.*

*At the seaside: Learning about safety at the beach.*

*The garden: Planting vegetables to observe and discuss their growth.*

*Insects: Learning about different insects, with a focus on worms.*

Pethau y gallwch chi eu gwneud adref i gefnogi'r dysgu:

Gwrando ar eich plentyn yn darllen cymaint â phosib.

Ymarfer ffurfio llythrennau a rhifau yn gywir.

Ymweld â gwefan gwaith cartref y dosbarth yn wythnosol ac ymarfer y sgiliau sydd wedi'u cyflawni yn y dosbarth.

Ymchwilio am ffeithiau diddorol am drychfilod.

Helpu'ch plentyn i uwch-lwytho gwaith cartref ar Seesaw.

Cysylltwch gyda ni os ydych yn cael unrhyw broblem .

*Things you can do at home to support the learning:*

*Listen to your child reading as much as possible.*

*Practise correct letter and number formations.*

*Find interesting facts about insects.*

*Help your child to upload homework onto their Seesaw account.*

*Contact us if you have any problems with the above.*